| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD** | 08 Gorffennaf 2015 |
| **TEITL** | Ymgynghoriad ar Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg |
| **AWDUR** | Debbie Anne Williams Jones<br>(Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ac Iaith) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno crynodeb o'r Hysbysiad Cydymffurfio a'r prif bwyntiau y mae angen trafodaeth ac ymateb arnynt. |

## 1 CEFNDIR

1.1 Ar 22 Mehefin 2015, derbyniwyd Hysbysiad Cydymffurfio ar y Safonau Iaith gan Gomisiynydd y Gymraeg am gyfnod ymgynghori hyd at 20 Gorffennaf 2015.

1.2 Mae'r ymgynghoriad ar yr Hysbysiad Cydymffurfio – Safonau'r Gymraeg yn gofyn i ni ystyried a darparu tystiolaeth i Gomisiynydd y Gymraeg os ydym o'r farn bod un neu fwy o'r Safonau Iaith yn yr Hysbysiad Cydymffurfio yn 'afresymol ac/neu'n anghymesur' gan nodi:

a) rhif y safon yn yr hysbysiad cydymffurfio drafft sydd yn eich barn chi'n afresymol ac/neu anghymesur;

b) pam fod y safon yn afresymol ac/neu'n anghymesur, gan nodi pob rheswm a thystiolaeth i gefnogi hynny;

c) a fyddai amrywio'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon yn ei wneud yn rhesymol a/neu chymesur. Er enghraifft cyflwyno'r gofyniad ar adeg gwahanol, mewn amgylchiadau gwahanol neu mewn ardaloedd gwahanol. Dylid nodi beth yw'r rheiny, gan nodi pob rheswm a thystiolaeth i gefnogi hynny;

d) a fyddai safon arall sy'n ymwneud â'r un gweithgaredd neu fater yn rhesymol a/neu chymesur? Os felly, dylid nodi pa safon a pham, gan nodi pob rheswm a thystiolaeth i gefnogi hynny.

1.3 Gofynnir i ni hefyd nodi os ydym o'r farn fod yr amserlen ar gyfer bodloni'r safonau (chwe mis ar gyfer y rhelyw) yn afresymol.

1.4 Rhaid felly ystyried

a) Faint o'r safonau yr ydym eisoes yn cydymffurfio â nhw, neu yn mynd y tu hwnt iddynt

b) Sawl un o'r safonau yr ydym yn gwybod nad ydym ar hyn o bryd yn cydymffurfio â hwy

c) Sawl un o'r safonau yr y mae ansicrwydd yn eu cylch, a pham?

Wrth drafod y safonau y mae ansicrwydd yn eu cylch, rhaid ystyried y dystiolaeth y bydd yn ofynnol i ni ei gyflwyno yn ein hymateb i'r ymgynghoriad i Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn felly yn rhoi crynodeb o ddosbarthiadau'r Safonau, ac yn nodi ein hargraffiadau cyntaf o'r prif bryderon gyda rhai o'r Safonau Iaith.

## 2 DADANSODDIAD O'R SAFONAU IAITH

2.1 Caiff y Safonau eu rhannu yn 5 dosbarth:

1. Cyflenwi Gwasanaethau
2. Llunio Polisi
3. Gweithredu
4. Cadw Cofnodion
5. Hybu

**1. Cyflenwi Gwasnaethau (1-87)**

Mae'r safonau hyn (o 1 -87) yn ymwneud yn bennaf gyda chyswllt y Cyngor gyda'r cyhoedd. Mae Cynllun Iaith y Cyngor eisoes yn mynd y tu hwnt i ran helaeth o'r safonau hyn.

Fodd bynnag, codir ambell gwestiwn gan rai o'r Safonau.
Er enghraifft:
**Safonau 2,3, 21, 28, 32, 72** : Mae'r rhain yn safonau sy'n ymwneud â dewis iaith yr aelod o'r cyhoedd a'r dyletswydd arnom i **ofyn** i unigolyn pa iaith yr hoffent gyfathrebu gyda ni.
Fel rheol, hyd yn oed os nad yw iaith yr unigolyn yn hysbys i ni, bydd y Cyngor yn cyfathrebu gyda'r unigolyn yn ddwyieithog wrth ohebu yn ysgrifenedig.
Ni allwn, serch hynny fod yn sicr ein bod bob amser yn gofyn i'r unigolyn am ddewis iaith wrth gyfathrebu ar lafar, ac er bod y gwasanaethau rheng-flaen (derbynfeydd etc) i gyd yn gweithredu yn ddwyieithog, mae angen cwestiynnu a yw'r dewis yn cael ei roi i'r cyhoedd bob amser os yw'r cyswllt cyntaf yn cael ei wneud gan y Cyngor, ac a oes trefniadau mewn lle gan y Cyngor i gofnodi'r dewis iaith hwnnw.
Os nad oes trefniadau mewn lle i gofnodi dewis iaith y cyhoedd, byddwn yn ei chanfod hi'n anodd cydymffurfio a/neu adrodd ar ein cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Iaith yma. Diau bod lle i nodi Polisi Iaith y Cyngor a'i fod yn diogelu statws y Gymraeg ac argaeledd gwasanaethau yn y Gymraeg i drigolion a bod lle felly i ddiwygio'r union ofyn o dan y safonau hyn.

**Safon 30** : Nid ydym yn datgan ar unrhyw wahoddiad neu hysbysiad sy'n gwahodd y cyhoedd i gyfarfod bod croeso i unrhyw unigolyn sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae'r Cyngor yn darparu cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod cyhoeddus a gynhelir, ac mae'r Gymraeg wedi ei normaleiddio i'r graddau fod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol bod modd iddynt siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor.

**Safon 49** : Os ydym yn llunio fersiwn Cymraeg a Saesneg o ddogfen ar wahân, i ba raddau mae ein fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg?

**Safonau 67-68** : Yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor, mae holl staff derbynfeydd (Siop Gwynedd) yn gwbl ddwyieithog. O ganlyniad, nid yw'r staff yn gwisgo bathodynau i ddangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, ac nid oes arwyddion yn datgan fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa. Unwaith eto, mae lle i ddadlau bod polisi'r Cyngor fel ag y mae yn fwy na digonol ar gyfer y gofynion.

2. **Llunio Polisi (88-97)**

Dyma'r dosbarth o Safonau (88-97) y mae'r mwyaf o ansicrwydd yn eu cylch. Mae angen i ni ystyried i ba raddau y rhoddir ystyriaeth i effaith penderfyniadau polisi, ymchwil ar:
(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a
(b) peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
A yw'r Cyngor eisoes yn rhoi ystyriaeth i effaith pob polisi ar yr iaith Gymraeg, ac i ba raddau mae dull safonol ar gael ac yn weithredol i gofnodi'r ystyriaeth o roddwyd i'r Gymraeg wrth ddatblygu neu adolygu polisi?

3. **Gweithredu (98-144)**

Mae'r Safonau hyn yn ymwneud yn bennaf gyda gweinyddiaeth fewnol a hawliau'r staff i ddewis iaith; ac yn ofynion mae'r Cyngor eisoes yn eu cyfarch drwy gyfrwng y Cynllun Iaith.
Mae pob aelod o staff eisoes yn derbyn gohebiaeth a gwybodaeth ynghylch amodau gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac yn aml, mae staff yn derbyn gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddi-ofyn. Os yw'r Safonau yn rhoi'r pwyslais ar 'ddewis' iaith, yna gallai hynny effeithio yn negyddol ar statws y Gymraeg yn hytrach na'i chryfau drwy arwain at aelodau o staff yn dewis derbyn gwybodaeth yn Saesneg yn hytrach nag yn Gymraeg.

4. **Cadw Cofnodion (147-154) a Safonau Atodol (155-176)**

Mae'r Safonau hyn ynghyd â'r Safonau Atodol ar gyfer pob Dosbarth o Safon yn ymwneud â'r modd y mae'r Cyngor yn monitro ac yn cadw cofnodion ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau.
Mae'r gofyn i gadw cofnodion yn unol â'r Safonau hyn yn debygol o gael effaith ar adnoddau o safbwynt amser, staff, a chyllideb i'w cyflawni.

5. **Hybu (173-174)**

Mae'r Safon Hybu yn gofyn i'r Cyngor lunio a chyhoeddi Strategaeth Iaith, gan adolygu'r Strategaeth bob 5 mlynedd. Mae gan y Cyngor (o dan hunaniaith) Strategaeth Iaith i'r sir, a gyhoeddwyd yn 2014 am gyfnod o 3 blynedd (2014-17). Byddai llunio Strategaeth newydd o fewn y flwyddyn, i gydymffurfio a'r Safonau 145-174 yn ddibwrpas.
Mae amheuaeth hefyd ynglŷn â gallu'r Cyngor i fesur effaith gwireddu uchelgais unrhyw strategaeth bob 5 mlynedd, gan mai'r Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell ddata ar gyfer mesur nifer/% siaradwyr Cymraeg.

**3 CAMAU NESAF**

3.1 Gwahoddir barn y Pwyllgor Iaith ar yr Hysbysiad Cydymffurfio – Safonau Iaith, gan roddi ystyriaeth i'r pwyntiau a nodir uchod.

3.2 Bydd ymgynghori hefyd gyda'r Grŵp Rheoli a'r Tim Rheoli Corfforaethol.

3.3 Bwriedir dod â'r sylwadau o'r holl fforymau uchod ynghyd i lunio ymateb cyflawn i'r ymgynghoriad, a gaiff ei anfon yn enw'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg erbyn 20 Gorffennaf 2015.